Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Chwarae Dechrau Disglair Llangennech

**oddi ar Ffordd Hendre**
**Llangennech**
**Llanelli**
**SA14 8TH**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2011**

**gan**

**Mr Peter Mathias**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleoliad preifat,cyfrwng Saesneg yw Dechrau Disglair sy’n darparu addysg feithrin yn Llangennech a’r ardal o amgylch. Fe’i lleolir o fewn canolfan gymunedol newydd yn y pentref ac mae’n darparu gofal ar gyfer hyd at 30 o blant ar y tro o ddwy i bump mlwydd oed. Ar hyn o bryd mae 37 o blant ar y gofrestr sy’n mynychu rhan amser.

Daw’r plant sy’n mynychu’r feithrinfa o ystod eang o gefndiroedd. Mae pob un ond pedwar yn dod o gartrefi gyda Saesneg yn brif iaith. Nid oes yr un ohonynt â Saesneg fel iaith ychwanegol ac mae’r gwddill yn siarad Cymraeg fel mamiaith.Ar hyn o bryd ni ddynodwyd bod yr un disgybl a chanddynt anghenion addysgol ychwanegol (AAY). Yn gyfan gwbl, mae chwech plentyn sy’n newydd i’r lleoliad.

Mae’r lleoliad ar agor pob bore o 9.00 o’r gloch tan 1.00 o’r gloch y prynhawn. Fe’i cofrestrwyd gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i dderbyn 30 o blant. Arolygywd y lleoliad ddiwethaf gan AGCCC ym mis Rhagfyr 2009.. Ni wnaeth yr adroddiad unrhyw argymhellion sylweddol. Cydnabyddir y lleoliad hefyd gan Gymdeithas Darparwyr Cyn –ysgol Cymru. Ni chafodd ei arolygu o’r blaen gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleiliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae ansawdd a safonau'r ddarpariaeth addysgol yn briodol ac yn hyrwyddo'n llwyddiannus ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu'r plant oherwydd bod y canlynol yn dda:

- y safonau a gyflawnir mewn sgiliau cyfathrebu yn natblygiad yr iaith Saesneg a'r iath Gymraeg;
- ansawdd lles gan gynnwys mwynhad y plant mewn dysgu, ymddygiad ac agwedd;
- addysgu ar draws y lleoliad a pherthynas gadarnhaol iawn rhwng pob oedolyn a phlentyn;
- darpariaeth ar gyfer iechyd a lles a'r ethos gadarnhaol yn y lleoliad;
- ansawdd yr arweinyddiaeth a phroffesiynoldeb y perchennog a'r staff;
- rheolaeth y staff a'r gymhareb fanteisiol o ymarferwyr i blant; a
- barn rhieni a gofalwyr o'r ffordd y trefnir y lleoliad.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd;

- ceir ymrwymiad cadarn a darpariaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus;
- hanes gwelliant adnoddau a chyfleusterau ers agor y lleoliad;
- asesiad cywir o gryfderau ac ardaloedd i wella o fewn y lleoliad; a
- ceir tîm o ymarferwyr ymroddedig iawn sy'n gweithio'n galed.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i Gylch Chwarae 'Dechrau Disglair':

A1 ymestyn cyfleoedd i blant i brofi ystod ehangach o weithgareddau corfforol gan gynnwys y defnydd o gyfarpar mawr a theganau olwyn yn yr awyr agored;

A2 gwella'r ystod o strategaethau asesu; a

A3 gosod cynlluniau manwl i nodi sut a phryd y rhoir ar waith flaenoriaethau gwella, y costau sy'n rhan o hynny a'r modd yr asesir effaith y mentrau hyn.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Fe fydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r pant yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da mewn perthynas a'u man cychwyn ar draws bron pob un o ardaloedd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Gweithiant yn galed gan gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth newydd o leiaf sy'n cyfateb a'u gallu. Mwynhânt yr ystod eang o brofiadau cyffrous a ddarperir ac maent yn eiddgar i gymryd rhan ac i ddysgu mwy.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn arbrofi ac yn ymchwilio'n hyderus mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ymarferol. Fodd bynnag, mae cynnydd yn natblygiad corfforol plant yn gyfyngedig. Ni ddefnyddiant gyfarpar mawr a theganau olwyn yn yr awyr agored yn rheolaidd i wella eu cydbwysedd a'u cyd- drefniant.

Mae gan y rhan fwyaf o blant sgiliau cyfathrebu da yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Ymatebant yn hyderus, yn aml gan ddefnyddio atebion byr i gwestiynau gan esbonio pam, er enghraifft bod rhai bwydydd yn well i'w bwyta nac eraill.

Mae bron pob un yn chwilfrydig iawn am eu byd , gan archwilio'r pridd yn eiddgar am fwystfilod bach wrth iddynt godi'r cnwd moron maent wedi ei dyfu. Ymunant i gyd wrth ganu caneuon yn frwdfrydig  yn Saesneg ac yn y Gymraeg a chydweithiant yn dda gyda'i gilydd wrth rannu offerynnau taro di-draw.

Mae bron pob un yn defnyddio offer ysgrifennu priodol i wneud marc ac i ymarfer cofnodi eu meddyliau.Mae pob un yn gwybod y darllenir llyfrau o'r chwith i'r dde a dilynant  ei stori eu hunain.

Mae bron pob un yn cyfrif yn gywir o fewn 10 yn Saesneg ac yn y Gymraeg Maent yn adnabod rhifau bach mewn trefn ac wrth ysgrifennu fel symbolau. Gwyddant enwau siapau cyffredin ac fe'u trefnant yn ôl eu priodweddau gwahanol. Maent yn dechrau defnyddio iaith fathemategol fel 'mwy' neu 'llai' a 'trymach' ac 'ysgafnach' yn gywir. Mae nifer o'r plant hŷn yn gwybod sut i lunio pictogram syml am, er enghraifft eu hoff fwydydd.

Mae brob pob un o'r plant yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCH) yn dda mewn amrywiaeth da o sefyllfaoedd, er enghraifft wrth recordio  stori ar gyfer 'llyfr llafar' Rhoddant gyfarwyddiadau cywir i degan rhaglenadwy a gallant lywio  trwy raglenni mathemategol syml gan ddefnyddio'r  llygoden yn hyderus. Defnyddiant feicrosgop electroneg i edrych yn fanwl ar ddwyster mango wrth ddysgu am fwydydd Affricanaidd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu hiaith Gymraeg ac yn ymateb i gwestiynau a ofynir yn y Gymraeg gan ddefnyddio'r un iaith, er enghraifft wrth

ddisgrifio'r tywydd ac wrth gymysgu toes. Gwyddant amrywiaeth priodol o rigymau, storiau a chaneuon Cymraeg gan eu perfformio'n frwd.

Mae gan bron pob un plentyn lefelau uchel o annibyniaeth am eu hoedran a gwnant ddewisiadau ar gyfer eu hunain wrth benderfynu beth a pha mor hir y deisyfant gymryd rhan mewn gweithgaredd. Maent yn ddigon parod i rannu eu hoffer gan fod yn ystyriol o'i gilydd. Mae ganddynt allu sy'n datblygu wrth edrych amdanynt eu hunain a dealltwriaeth da o bwysigrwydd hylendid wrth olchi dwylo a glanhau dannedd.

Medda pob plentyn yn y lleoliad sgiliau llawdriniol da wrth greu gludwaith ac wrth ddefnyddio offer torri a gludo. Rhoddant baent trwchus yn ofalus ar ddail ac yna cwblhau print deilen. Mwynhant y broses o drafod clai i iro cwt clai ar gyfer pentref Handa yn Affrica. Ymatebant yn dda iawn i rythmau Affricanaidd ac ymgymerant rolau gyda pharodrwydd.

**Lles: Da**

Mae pob un o'r plant yn mwynhau eu dysgu ac am eu hoedran mae ganddynt ddealltwriaeth da o bwysigrwydd bwyta'n iach amser byr brydau ac amser cinio. Gwyddant enwau bwydydd da a gwael. Fel canlyniad i'r anogaeth a dderbyniant yn rheolaidd, mae pob un ohonynt yn hyderus wrth siarad gydag oedolion ac maent yn rhadlon bob amser. Maent yn adnabod pwysigrwydd golchi dwylo a glanhau dannedd yn rheolaidd.

Cryfder arbennig yw'r agwedd gadarnhaol sydd gan hyd yn oed yr ieuengaf o'r plant wrth chwarae ac ymchwilio gyda'i gilydd. Dangosant lefelau uchel o ofal ac ystyriaeth o'i gilydd , eu hoffer ac adnoddau. Ymatebant yn gadarnhaol i awgrymiadau a chyfarwyddiadau a roir gan ymarferwyr yn rheolaidd.. Maent i gyd yn gwybod rheolau sylfaenol a phwysig ynglŷn ag ymddygiad yn y lleoliad ac mae ganddynt ymwybyddiaeth sy'n cynyddu o arferion a ffyrdd bwyta'n dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad wedi ei drefnu'n atyniadol iawn, er gwaetha'r angen i osod a chadw'r holl offer ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Mae'r cynllunio'n llwyddiannus iawn i ymrwymo pob plentyn mewn amrywiaeth eang o brofiadau cyffrous sydd wedi ei llunio'n ofalus ac sy'n mynd i'r afael yn llwyddiannus â bron pob maes dysgu ar gyfer cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr i gyd yn cynllunio'n ofalus gyda'i gilydd ar gyfer cynllunio hir dymor a thymor byr i sicrhau bod bron pob agwedd o'r cwricwlwm hwn yn cael ei drefnu'n systematig fel bod y plant yn adeiladu'n llwyddiannus ar yr hyn y maent yn ei wybod ac y gallant ei gyflawni'n barod.

Tra bod y lleoliad yn cynllunio ac yn darparu gweithgareddau priodol i ddatblygu datblygiad corfforol y plant o fewn yr adeilad, nid yw'n cynllunio nac yn darparu

amrywiaeth eang o weithgareddau awyr agored gan ddefnyddio offer mawr a theganau olwyn i gwrdd â'r holl elfennau yn y maes dysgu hwn.

Mae pob ymarferwr yn cynllunio'n ofalus i ddatblygu medrau llythrenedd a chyfathrebu, rhifedd a'r iaith Gymraeg. Mae'r cynllunio'n gosod yn fanwl beth yw'r amcanion tymor byr a'r camau nesaf i'w dilyn. Mae cynlzlunio gofalus yn pwysleisio'n gyson sut i ddatblygu medrau cymdeithasol plant ac i annog pob plentyn i barchu gwahaniaethau.

Mae'r cynllunio'n gwneud darpariaeth da i'r plant i fod yn ddysgwyr annibynnol, i ddatblygu eu medrau creadigol, eu dealltwriaeth o'r byd ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd trin pob peth byw gyda pharch.

Ceir cyfleoedd da  i blant i ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy, er enghraifft trwy weithgareddau yn ymwneud â'r ardd a'r caeau a'r goedwig gerllaw. Medda bron pob un ddealltwriaeth da o sut i wneud compost a chydnabod bod y cynnyrch gorffenedig yn galluogi i gyfoethogi eu pridd ar gyfer y cnydau nesaf o foron a letys.. Maent yn dechrau deall nad yw bywyd mewn gwahanol rannau o'r byd  pob amser yn debyg i'w bywyd nhw. Meddant ymwybyddiaeth gynyddol o'u hunaniaeth Gymreig

**Addysgu:  Da**

Medda pob ymaferwr ddealltwriaeth drylwyr o sut i ymestyn dysgu'r plant trwy ystod eang o weithgareddau ac maent yn hollol ymwybodol o'r hyn y dymunant i'w plant brofi yn ystod yr amser sydd ar gael. Mae gan pob un ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall pob plentyn ei gyflawni ac maent yn eu hannog a'u harwain yn ofalus ac yn sensitif i fod yn ddysgwyr llwyddiannus a  brwdfrydig. Maent yn ymwybodol iawn o anghenion unigol pob plentyn ac maent yn eu hannog yn gefnogol i fod yn ddysgwyr annibynnol a hyderus.

Ar draws y lleoliad mae pob ymarferwr yn cymryd mantais o nifer o gyfleoedd  i ddatblygu medrau iaith plant mewn Saesneg a Chymraeg. Mae pob ymarferwr yn amlwg yn ymestyn ac atgyfnerthu geirfa eu plant ac yn defnyddio'r ddwy iaith yn dda, ac yn briodol yn newid o un iaith i'r llall yn naturiol. Maent yn annog eu plant i wneud yr un peth.  Cryfder arbennig yw'r modd effeithiol mae pob ymarferwr yn cydweithio gydag eraill i greu tîm gwaith hyblyg ac effeithiol sy'n ymateb yn dda iawn i anghenion unigol pob plentyn.

Mae cyfundrefnau wedi ei sefydlu'n dda i asesu cynnydd plant unigol o'r adeg yn gynnar ar ôl iddynt ddechrau yn y lleoliad ac i nodi unrhyw blentyn sydd ag anghenion dysgu penodol. Cofnodir cynnydd personol yn ofalus ac fe nodir yn glir y camau nesaf ar gyfer dysgu.. Seilia pob ymarferwr eu hasesiadau ar gofnodion anffurfiol o'r hyn mae plentyn unigol wedi ei gyflawni wrthiddynt gymryd rhan yn y gweithgareddau a gynlluniwyd. Defnyddir eu gwybodaeth yn dda iawn i ymestyn a chefnogi dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth a gesglir yn dynodi'n systematig os oes cryfderau arbennig neu ardaloedd cyffredin o wendid. Nid yw'n creu sylfaen i ddarparu gwybodaeth glir am y cynnydd a wna plant  yn gyffredinol ers iddynt ddod i'r lleoliad.

Mae cofnodion manwl o'r hyn mae plant yn ei wybod ac yn gallu ei wneud. Mae pob ymarferwr yn ymwybodol o bwysigrwydd dathlu llwyddiannau plant. Fodd bynnag, nid

ydynt yn ymrwymo'r plant yn ddigonol wrth asesu eu dysgu eu hunain fel eu bod yn raddol yn deall beth mae'n rhaid iddynt ei wneud er mwyn gwella.

Mae'r adroddiadau i rieni a gofalwyr yn fanwl ac wedi eu personoli ar gyfer disgyblion unigol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Ceir trefniadau effeithiol i sicrhau iechyd a lles y plant. Mae'r rhain yn cyfrannu'n llwyddiannus i ddatblygiad plant. Mae'r lleoliad mewn modd meddylgar yn darparu llawer o gyfleoedd wedi ei llunio'n dda i adeiladu ar chwilfrydedd plant i ddysgu mwy am fywydau pobl eraill, er enghraifft trwy eu dysgu am ffordd o fyw Handa yn Affrica ac anifeiliaid a bwyd y cyfandir hynny. Mae profiadau yn y byd ehangach yn eu hannog i brofi parchedig ofn a syndod wrth edrych ar fwystfiliaid bach ym mhridd yr ardd ac ymddygiad y wiwer yn y maes parcio.

Mae'r lleoliad yn rheolaidd yn darparu'n dda ar gyfer plant i ddysgu beth sy'n iawn a beth sydd yn ddrwg a sut i ymddwyn yn ystyriol o eraill. Mae cyfleoedd da i'r plant i gyd i wneud dewisiadau drostynt eu hunain ac i gydnabod eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y lleoliad. Mae gan y lleoliad drefniadau da i ddarparu cymorth personol ac arbenigol ar gyfer plant. Nodir plant gydag AAY yn gyflym ac fe osodir cynlluniau chwarae unigol i roi cymorth priodol. Gweithia ymarferwyr yn agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn y broses hon. Fe gaiff rhieni wybodaeth a chyfle i gymryd rhan yn y broses yn llawn.

Teimla'r palnt i gyd yn ddiogel yn y lleoliad ac maent i gyd yn hapus ac yn mwynhau bod yno. Mae gan y lleoliad bolisi a gwethdrefnau priodol ar gyfer amddiffyn plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn le cynnes a chroesawgar i blant a'u rhieni. Mae'r lleoliad mewnol yn amgylchfyd deniadol, sydd wedi ei drefnu'n dda ac yn ysgogol. Mae'r ymarferwyr i gyd yn creu yn rheolaidd ac yn llwyddiannus awyrgylch teuluol ble y caiff y plant i gyd eu trin yn yr un modd a'i gwneud i deimlo y cant ei gwerthfawrogi y naill fel y llall.

Mae cymhareb fanteisiol iawn o ran ymarferwyr i blant. Mae pob un yn briodol o ran cymhwyster. Mae gan y mwyafrif brofiad eang a helaeth o weithio gyda phlant o'r oedran hwn. Mae trefniadau ar gyfer ei datblygiad proffesiynol parhaus yn briodol ac effeithiol.

Mae adnoddau yn gyffredinol o ansawdd a maint da ac yn briodol ar gyfer anghenion plant o'r oedran hwn ac anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae cyfleusterau awyr agored da i alluogi plant i gael profiad o fyd natur, ond cyfyngedig iawn yw'r cyfleoedd a'r adnoddau ar gyfer plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae awyr agored gan ddefnyddio offer mawr a theganau olwyn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd wedi sefydlu'n llwyddiannus iawn leoliad sy'n darapru'n dda ar gyfer plant ac ac sydd ag ethos bositif iawn ble caiff datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr i gyd flaenoriaeth uchel. Ceir synnwyr cryf o bwrpas ac ysbryd tîm adeiladol iawn. Cydweithia'r ymarferwyr yn agos iawn gyda'i gilydd fel tîm cydlynol sy'n gwerthuso'n gydwybodol ac yn ystyried y ddarpariaeth a sut y gellir ei chynnal a'i gwella ymhellach.

Nid oes gan y lleoliad bwyllgor rheoli. Mae gan y perchennog, sydd hefyd yn arweinydd y lleoliad, wybodaeth dda am anghenion proffesiynol yr ymarferwyr a'r plant i gyd, ac yn rhoi arweiniad cryf ac effeithiol.

Mae'r lleoliad yn diwallu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda ac mae wedi bod ynghlwm yn llwyr â hyfforddiant a datblygiadau eraill sy'n ymwneud â chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Ceir system fanwl gywir a ddefnyddir yn dda ar gyfer arfarnu i gefnogi a gwella perfformiad ymarferwyr.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y lleoliad weithdrefnau da ar gyfer gwerthuso ei chryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'n ymofyn barn rhieni a gofalwyr yn rheolaidd, yn anffurfiol a thrwy holiaduron. Gwerthfawrogir y barnau a fynegir. Mae'r ymarferwyr i gyd yn cyfrannu tuag at y broses hunan werthuso.

Mae'r ddogfen yn ddigon manwl ac yn nodi'n gywir y ffordd ymlaen. Fodd bynnag, gan nad yw'r fformad a ddewiswyd yn dilyn cyfarwyddiadau Estyn ar gyfer archwilio lleoliadau na'u cynhelir, ni eir i'r afael â rhai meysydd a gynhwysir yn y cyfarwyddiadau.

Tra bod y ddogfen hunan werthuso yn cynnwys blaenoriaethau ar gyfer datblygu sy'n berthnasol ac wedi eu cynllunio'n dda, mae'n brin o gynllun manwl o sut i roi'r rhain ar waith a'r modd i farnu llwyddiant unrhyw weithredu a wneir.

Mae cysylltiadau da gyda lleoliadau eraill gan gynnwys yr ysgol feithrin leol a'r lleoliad cyfrwng Cymraeg yn y pentref. Mae'r rhain yn anffurfiol ac nid yw'r lleoliad ond megis cychwyn i drefnu cysylltiadau ffurfiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod dda o bartneriaethau gyda rhieni, y lleoliad lle bydd yn trosglwyddo, yr awdurdod lleol (ALL) a sefydliadau eraill sy'n cyfrannu at ddatblygiad y cyfnod yma o addysg. Mae'r partneriaethau yma i gyd yn cynorthwyo tuag at lwyddiant y lleoliad.

Mae cysylltiadau gyda rheini wedi eu sefydlu'n dda ac fe deimlant i gyd ei bod yn cael gwybodaeth lawn a chyfoes am gynnydd eu plant. Cynnwys y cysylltiadau

gyda'r ysgol fabanod leol ffeiliau pontio manwl a threfniadau i blant i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd cyn trosglwyddo.

Mae ymgynghorwyr Cyfnod Sylfaen yr ALL yn gweithio'n effeithiol gyda'r lleoliad fel y gwna ymwelwyr o'r gymuned leol. Elwa'r lleoliad hefyd o'r arweiniad a geir oddi wrth Cymdeithas Darparwyr Cyn –ysgol Cymru.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ystod da o adnoddau cyfoes sy'n cyfrannu'n dda tuag at y cynnydd a wna'r plant. Cryfder arbennig yw'r gymhareb fanteisiol iawn o ymarferwyr i blant a'r modd effeithiol y lleolir yr holl ymarferwyr. Defnyddir arian yn dda i gynnal a gwella adnoddau presennol.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

Derbyniwyd tri deg pedwar ymateb i holiadur y rhieni. Roeddynt i gyd yn gadarnhaol iawn, Roedd y rheini i gyd yn fodlon gyda'r lleoliad ac yn cytuno bod eu plant yn hoffi'r lleoliad. Fe gynothwywyd y plant i gyd i ymgartrefu'n dda ac i wneud cynnydd da.

Roedd y rhieni i gyd yn meddwl bod ymddygiad y plant a'r dysgu a ddarperir yn dda.. Roedd y plant yn cael eu trin yn deg ac yn cael eu hannog i fod yn iach ac i gymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd. Teimlant bod y lleoliad yn fan diogel ac y diwallir anghenion unigol plant.

Credant i gyd eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac roeddynt yn hapus i gysylltu â'r lleoliad pe bai angen. Deallant beth i'w wneud oes oedd cwyn ganddynt. Teimla'r rhieni i gyd bod eu plant wedi eu paratoi'n dda i symud ymlaen i'r ysgol fabanod. Roeddynt yn teimlo bod y lleoliad yn darparu ystod da o weithgareddau ac ymweliadau. Ar y cyfan, roeddynt i gyd yn teimlo bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

**Ymateb i'r drafodaeth gyda phlant**

Roedd pob un o'r plant yn hyderus wrth siarad ag oedolion. Siaradant yn glir a defnyddiasant frawddegau syml, byr i fynegi eu teimladau. Roeddynt i gyd yn hoffi dod i'r ganolfan ac yn mwynhau cymryd rhan ymhob gweithgaredd. Teimlant eu bod yn hapus i chwarae gyda'u ffrindiau. Gwyddant beth i'w wneud pe bai angen cymorth arnynt neu bod ganddynt broblem.

Roedd gan pob un ddealltwriaeth glir iawn o bwysigrwydd rheolau'r lleoliad oedd yn cynnwys ymddwyn yn synhwyrol a gofalu am ei gilydd. Gwyddant bod ganddynt gyfrifoldebau i helpu eu hathrawon ac i wneud dewisiadau synhwyrol drostynt eu hunain. Teimlant i gyd bod eu hathrawon yn eu hadnabod yn dda a'u bod cael eu trin yn annwyl.

## Atodiad 2

**Yr arolygygydd cofnodl**

| | |
|---|---|
| Mr Peter Mathias | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.